| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | |

**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU** | **WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd** | **General Certificate of Secondary Education**

178/51*265/51

**TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU - TGAU PAPUR 1**

**TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU - TGAU (CWRS BYR)**

(Haen Sylfaenol – Graddau G i C)

P.M. DYDD MAWRTH, 22 Mai 2007

(1 awr)

| Arholwr yn unig | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Marciau** | |

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag yn y llyfryn hwn. Os nad oes gennych ddigon o le, cewch barhau â'ch ateb yng nghefn y llyfryn, gan ofalu nodi rhif y cwestiwn yn gywir.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*Atebwch* **bob** *cwestiwn.*

**1.** Ticiwch (✓) **ddau** flwch i ddangos pa rai o'r canlynol sy'n nodweddion *e-bost*. [2]

| | **Ticiwch (✓) ddau flwch yn unig** |
|---|---|
| *CAD* | |
| Llyfrau cyfeiriadau | |
| Lluniadu graffiau | |
| Sganwyr | |
| Atodiadau | |

**2.** Mae cwmni'n defnyddio'r Rhyngrwyd.

*(a)* Nodwch beth yw ystyr *y Rhyngrwyd*. [1]

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

*(b)* Mae'r cwmni'n defnyddio cyfleusterau canlynol y Rhyngrwyd. [3]

**CERT SIOPA** **LLINELLAU SGWRSIO**

**CWCIS *(COOKIES)*** **PEIRIANT CHWILIO** **GWEFAN**

Nodwch pa un o'r uchod yw'r cyfleuster *mwyaf addas* ar gyfer:

(i) hysbysebu cynhyrchion, ..........................................................

(ii) edrych am wybodaeth, ..........................................................

(iii) caniatáu i gwsmeriaid brynu nwyddau ar-lein. ..........................................................

**Peidiwch â defnyddio unrhyw gyfleuster fwy nag unwaith.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**3.** Mae DMG *(OMR)* ac DNG *(OCR)* yn cael eu defnyddio i fewnbynnu data i gyfrifiaduron.

*(a)* Ticiwch (✓) **un** blwch i ddangos pa un sy'n enghraifft addas o ddefnyddio **DMG**. [1]

| | **Ticiwch (✓) un blwch yn unig** |
|---|---|
| Sganio codau post | |
| Darllen sieciau banc | |
| Cymryd y gofrestr mewn ystafell ddosbarth | |

*(b)* Ticiwch (✓) **un** blwch i ddangos pa un sy'n enghraifft addas o ddefnyddio **DNG**. [1]

| | **Ticiwch (✓) un blwch yn unig** |
|---|---|
| Sganio codau post | |
| Darllen sieciau banc | |
| Cymryd y gofrestr mewn ystafell ddosbarth | |

*(c)* Mae siopau'n defnyddio codau bar i fewnbynnu data.

Rhowch **ddwy** eitem o ddata sydd wedi'u *hamgodio* mewn cod bar. [2]

Eitem 1 .................................................... Eitem 2 ....................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**4.** Mae trefnydd ras hwyl elusennol ar Ddydd Calan *(New Year's Day)* wedi cynhyrchu'r drafft cyntaf o boster i hysbysebu'r digwyddiad.

> Ysgol Llenewydd
> Ras Hwyl Elusennol
>
> Yn cychwyn
> 11 a.m.
> Canolfan Hamdden Llenewydd

Mae e'n defnyddio rhai o nodweddion ei feddalwedd Cyhoeddi Bwrdd Gwaith *(DTP)* i wella'r poster. Dangosir y poster ar ei ffurf newydd isod.




*(a)* Rhowch **bedair** o nodweddion y meddalwedd *DTP* a ddefnyddiwyd i wella'r poster. [4]

.................................................................................... ....................................................................................

.................................................................................... ....................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(b)* Rhowch eitem bwysig o ddata sydd **heb** ei chynnwys ar y poster. [1]

..............................................................................................................................................

*(c)* Rhowch **ddau** *fath gwahanol arall* o ddogfen a allai fod o gymorth wrth drefnu'r ras hwyl. [2]

.................................................................... ....................................................................

*(ch)* Mae'r trefnydd hefyd yn defnyddio'r cyfleusterau isod. [2]

**A** **Postgyfuno**
**B** **Gwirio sillafu**
**C** **Thesawrws ar-lein**
**CH** **Gosodiad tudalen** *(page setup)*

Dewiswch y cyfleuster mwyaf addas ar gyfer **pob un** o'r tasgau canlynol trwy ysgrifennu'r llythyren gywir yn y tabl isod.

*Mae'r un cyntaf wedi'i wneud i chi.*

| | |
|---|---|
| Gwirio bod y sillafu'n gywir | **B** |
| Cymryd data o gronfa ddata a'u rhoi mewn llythyr yn awtomatig | |
| Awgrymu geiriau gwahanol sydd ag ystyr tebyg | |

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**5.** Mae modurdy yn defnyddio taenlen i gyfrifo biliau ei gwsmeriaid. Dangosir rhan o'r daenlen isod.

| | A | B | C | D | E | F |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | **Car** | **Cost Gwasanaeth Safonol** | **Cost Rhannau Ychwanegol** | **Cost Llafur Ychwanegol** | **TAW** | **Cyfanswm y Bil** |
| **2** | *Volvo* | £250 | £50 | £50 | £61.25 | £411.25 |
| **3** | *Ford* | £175 | £28 | £10 | £37.28 | £250.28 |
| **4** | *Land Rover* | £245 | £120 | £25 | £68.25 | £458.25 |
| **5** | *Mazda* | £120 | £55 | £25 | £35.00 | £235.00 |
| **6** | *Peugeot* | £100 | £35 | £50 | £32.38 | £217.38 |
| **7** | *Mercedes* | £350 | £200 | £50 | £105.00 | £705.00 |


*(a)* Rhowch gost rhannau ychwanegol ar gyfer *Land Rover* yng nghell C4. .................................. [1]

*(b)* Dewiswch fformiwla o'r rhai isod a allai gael ei defnyddio i roi Cyfanswm y Bil yng Nghell F5. [1]

**A** =B5+C5+D5+E5
**B** =SWM(F2:F7)
**C** =SWM(B5:E5)
**CH** =B5+C5+E5+F5

..................................................................

*(c)* Mae'r rheolwr yn defnyddio taenlen arall i gynhyrchu'r graff o Gyfanswm Gwerthiant a ddangosir isod.




(i) Nodwch pa fath o graff yw hwn. .................................................................................................. [1]

(ii) Rhowch **un** *math arall* o graff y gellid ei ddefnyddio i ddangos y data hyn. [1]

..........................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(ch)* *Heblaw am luniadu graffiau*, rhowch **ddwy** o fanteision defnyddio taenlen i reoli'r modurdy. [2]

**Mantais 1** ..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

**Mantais 2** ..........................................................................................................................

..........................................................................................................................



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**6.** Mae gan uwchfarchnad system rheoli stoc gyfrifiadurol.

Mae *meistr-ffeil* o'r stoc yn cael ei chadw ar y system gyfrifiadurol.
Dangosir rhan o'r ffeil hon isod.

| **Cod Stoc** | **Disgrifiad o'r Stoc** | **Nifer mewn Stoc** | **Lefel Ailarchebu** |
|---|---|---|---|
| 7856 | Wyau | 10 | 20 |
| 8987 | Siwgr | 151 | 150 |
| 2202 | Dŵr potel | 200 | 180 |
| 2512 | Saws tomato | 75 | 50 |

*(a)* Nodwch pa eitem o stoc y bydd angen ei hailarchebu. .................................................. [1]

*(b)* Mae siopau'n caniatáu i gwsmeriaid dalu am nwyddau yn y Pwynt Talu *(POS)* gydag *arian parod*.

Rhowch **dri** dull *gwahanol arall* o dalu am nwyddau yn y Pwynt Talu. [3]

**Dull 1** ..................................................................................................................

**Dull 2** ..................................................................................................................

**Dull 3** ..................................................................................................................

*(c)* Rhowch **ddwy** o fanteision i'r *cwsmer* o ddefnyddio systemau Pwynt Talu. [2]

**Mantais 1** ..................................................................................................................

..................................................................................................................

**Mantais 2** ..................................................................................................................

..................................................................................................................

*(ch)* Rhowch **un** anfantais i'r *cwsmer* o ddefnyddio systemau Pwynt Talu. [1]

..................................................................................................................

..................................................................................................................

**7.** Mae siop ddodrefn yn cadw manylion ei chwsmeriaid a'u harchebion mewn cronfa ddata. Dangosir rhan o'r gronfa ddata isod.

| Rhif y Cwsmer | Enw | Cod yr Eitem | Maint | Cost | Dosbarthu |
|---|---|---|---|---|---|
| 67876 | R. Evans | 786 | Mawr | £200 | Ie |
| 54765 | H. Smith | 779 | Bach | £45 | Na |
| 95632 | A. Khaliq | 667 | Mawr | £805 | Ie |
| 84543 | D. Jones | 896 | Mawr | £567 | Ie |

*(a)* Rhowch enw unrhyw *faes allweddol* a ddangosir yn y gronfa ddata hon. .................................. [1]

*(b)* Rhowch enw un maes *'Boole'* a ddangosir yn y gronfa ddata hon. .................................................. [1]

*(c)* Mae'r siop yn cynnig dosbarthu *(delivery)* di-dâl ar gyfer pob archeb *dros* £200.

Faint o'r cwsmeriaid a ddangosir uchod a fyddai'n cael dosbarthu di-dâl? .............................. [1]

*(ch)* Mae rheolwr y warws eisiau cael manylion yr holl nwyddau sydd i gael eu dosbarthu.

Ysgrifennwch y maes a'r data chwilio sydd eu hangen i gael y data hyn o'r gronfa ddata. [1]

| *Enw'r maes* | *Meini prawf chwilio* |
|---|---|
| | |

*(d)* Disgrifiwch ddull **dilysu** addas ar gyfer y maes *Maint*. [1]

..............................................................................................................................................

*(dd)* Mae'r rheolwr yn defnyddio'r data hyn i gael *gwybodaeth (information)* am gwsmeriaid. Ticiwch (✓) **un** blwch i ddangos pa frawddeg sy'n disgrifio *gwybodaeth* orau. [1]

| | **Ticiwch (✓) un blwch yn unig** |
|---|---|
| Ffeithiau a ffigurau crai yw gwybodaeth. | |
| Data wedi'u prosesu yw gwybodaeth. | |
| Y newyddion yw gwybodaeth. | |

*(e)* Rhowch **un** fantais storio data am gwsmeriaid ar gronfa ddata gyfrifiadurol. [1]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................



**Trosodd.**

**8.** Mae garddwr yn tyfu blodau trofannol gwerthfawr yn ei dŷ gwydr. Mae cyfrifiadur yn rheoli'r tŷ gwydr ac mae wedi cael ei raglennu i ymateb i ddigwyddiadau penodol.

*(a)* Disgrifiwch sut y gallai'r cyfrifiadur gael ei raglennu i ymateb pe bai lleidr yn ceisio torri i mewn i'r tŷ gwydr.

**Synhwyrydd** .......................................................................................................... [1]

**Ymateb y cyfrifiadur** .......................................................................................... [2]

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

*(b)* Rhowch **ddau** synhwyrydd *arall* y gellid eu defnyddio i reoli'r *amodau tyfu* yn y tŷ gwydr hwn.

**Synhwyrydd 1** ...................................................................................................... [1]

**Synhwyrydd 2** ...................................................................................................... [1]

**9.** Mae myfyrwraig yn defnyddio meddalwedd a chaledwedd cyfrifiadurol i'w helpu hi i wneud project daearyddiaeth.

*(a)* Disgrifiwch **dair** ffordd *wahanol* y gallai hi ddefnyddio meddalwedd neu galedwedd TGCh i'w helpu hi i wneud hyn.
*Mae dwy enghraifft wedi'u gwneud i chi.*

*Defnyddiwch feddalwedd taenlen i gynhyrchu graff.*

*Defnyddiwch argraffydd i argraffu'r adroddiad.*

(i) .......................................................................................................................... [1]

(ii) .......................................................................................................................... [1]

(iii) .......................................................................................................................... [1]

*(b)* Mae gan y rhan fwyaf o raglenni a ddefnyddir yn yr ysgol Ryngwyneb Defnyddiwr Graffigol (RDG/*GUI*).

Rhowch **ddwy** o nodweddion RDG sy'n ei gwneud yn haws defnyddio rhaglenni. [2]

**Nodwedd 1** ..........................................................................................................

**Nodwedd 2** ..........................................................................................................

**10.** Mae cwmni sy'n gwerthu llyfrau wedi newid ei gyfrifiaduron arunig *(standalone)* am rwydwaith.

*(a)* Rhowch **ddwy** fantais *wahanol* sydd gan rwydwaith o'i gymharu â chyfrifiaduron arunig. [2]

**Mantais 1** ..............................................................................................................

..............................................................................................................

**Mantais 2** ..............................................................................................................

..............................................................................................................

*(b)* Rhowch **ddwy** broblem diogelwch *(security)* a all godi wrth ddefnyddio rhwydweithiau a disgrifiwch sut y gellir atal y problemau hyn.

**Problem diogelwch 1** .............................................................................................. [1]

**Sut i'w hatal** .............................................................................................. [1]

..............................................................................................................

**Problem diogelwch 2** .............................................................................................. [1]

**Sut i'w hatal** .............................................................................................. [1]

..............................................................................................................

**11.** Mae banciau'n cynnig llawer o wasanaethau i gwsmeriaid, gan gynnwys Peiriannau Arian Parod *(ATMs)* a bancio ar-lein (bancio Rhyngrwyd).

*(a)* *Yn ogystal â chael arian parod allan*, rhowch **dri** gwasanaeth *arall* y gellir eu cael o Beiriant Arian Parod. [3]

**Gwasanaeth 1** ..............................................................................................................

**Gwasanaeth 2** ..............................................................................................................

**Gwasanaeth 3** ..............................................................................................................

*(b)* Rhowch **ddwy** o fanteision *gwahanol* bancio ar-lein. [2]

**Mantais 1** ..............................................................................................................

..............................................................................................................

**Mantais 2** ..............................................................................................................

..............................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**Parhad yn unig.**